OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1022

# Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Gweinyddu) (Cymru) 2017

## RHAN 2

## ACC

### Dirprwyo swyddogaethau

**3.** Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru wedi ei ragnodi fel person y caiff ACC ddirprwyo iddo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi o dan adran 14(1) o'r Ddeddf CRhT.

### Pennu'r cyfnod cynllunio

**4.** Mae'r cyfnod sy'n dechrau ag 1 Ebrill 2018 ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 wedi ei ragnodi fel y cyfnod cynllunio cyntaf at ddibenion adran 27(7)(a) o'r Ddeddf CRhT.